# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2019/20

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Margaret Murley Roberts**
**Parti:** Plaid Cymru **Ward:** Lligwy

### 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| **Rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol:** | **Crynodeb o Bresenoldeb** |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn (Cadeirydd) | Cofnod Presenoldeb |
| Panel Rhiantu Corfforaethol | |
| Pwyllgor Apeliadau | |
| Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu | |
| Pwyllgor Grantiau Cyffredinol | |
| Pwyllgor Safonau - Panel Penodi | |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | |
| Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn | |
| Nid yw'r rhestr uchod yn cynnwys pob cyfarfod sy'n ymwneud â gwaith y Cyngor Sir.<br><br>Gall presenoldeb amrywio oherwydd natur gwaith a chyfrifoldebau aelodau - fel deilydd portffolio, cadeirydd pwyllgor neu fel cynrychiolydd y Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft. | |

Rwy'n aelod o Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn. Rwyf hefyd yn aelod o Bwyllgor Buddsoddi a Chontractau'r Ymddiriedolaeth – mae manylion am fy mhresenoldeb yn y cyfarfodydd hyn ar gael hefyd ar y ddolen uchod.

Rwy'n cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| - Cwmni CYNNAL AGM | Rwyf yn cynyrchioli y Cyngor yṇ AGM cwmni Cynnal |
| - Llywodraethwr / Ysgol Gynradd Moelfre<br>- Llywodraethwr / Ysgol Uwchradd Syr Thomas Jones, Amlwch | Rwyf yn Lywodraethwr yn Ysgol Syr ThomaS Jones |

| | |
|---|---|
| | ac yn mynychu cyfarfodydd llawn a paneli. Rwyf yn Lywodraethwr ar Ysgol Gymuned Moelfre sydd nawr yn ran o ffaedarasiwn newydd gyda Ysgol Goronwy Owen sef Ffedarasiwn Gwel y Glannau |
| - Pencampwr Amrywiaeth | Rwyf yn bencampwr Amrywiaeth |

**2 - Gweithgareddau yn yr Etholaeth**

Rwyf yn mynychu Cyngor Cymuned Moelfre yn rheolaidd lle dwi yn darparu adroddiadau misol. Rwyf hefyd yn mynychu ambell gyfarfod o Gyngor Cymuned Pentraeth.

Mae wedi bod yn falch o roi cymorth a chyngor i drigolion y ward. Rwyf ar gael un ai dros y ffon neu ebost. Wedi helpu etholwyr a'u teuluoedd mewn llawer a gwahanol ffyrdd e.e.:
Cynllunio: Wedi ymateb i geisiadau i gyfathrebu gyda'r Adran Gynllunio. Wedi siarad yn y Pwyllgor Gynllunio un ai o blaid neu yn erbyn cynlluniau.
Adran Dai: Wedi cyfathrebu ar ran tenantiad i ddatrys gwahanol broblemau.
Priffyrdd: Gwahanol geisiadau o wrychoedd,gor-yrru gosod drychau er diogelwch ayyb
Gwasanaeth Cymdeithasol: Cyfathrebu ar ran drigolion am faterion gwahanol

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Fel aelod o'r Panel Sgriwtini rwyf wedi cael y fraint o gyfarfod nifer o benaethiad ysgolion Mon hefyd cadeiyddion a llywodraethwyr. Rwyf hefyd wedi ymweld a llawer ysgol fel aelod o'r panel.

Yn ystod y flwyddyn rwyf wedi cael y fraint o wasanaethu fel Cadeirydd y Cyngor Sir. Mae'r rôl ddinesig hon wedi rhoi cyfle i mi fynychu llu o wahanol ddigwyddiadau cymunedol ar yr ynys, yn cynnwys nifer o eisteddfodau a chymanfaoedd canu.
Mae uchafbwyntiau arbennig wedi cynnwys Diwrnod y Lluoedd Arfog a Seremoni Rhyddfraint y Sir i'r Gwasanaeth Llongau Tan For y Llynges Frenhinol a gynhaliwyd yng Nghaergybi. Croesawyd timau pel droed i gystadlu yn nhwrnament Gemau'r Ynysoedd a gynhaliwyd ar hyd a lles yr Ynys a cynhaliwyd Gwasanaeth Sul y Cadeirydd yng Nghapel Carmel, Moelfre. Oherwydd yr argyfwng Covid-19 bu rhaid gohurio Noson Elusennol y Cadeirydd.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mae gwybodaeth am y mentrau dysgu a datblygu rwyf wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gael yma (gwybodaeth wedi'i ddarparu gan Gyngor Sir Ynys Môn): Hyfforddiant

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma: Cynghorydd Margaret Murley Roberts

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd Margaret Murley Roberts** | **Mehefin 2020** |